Cyfuniadau: Asesiad Cadarnhaol

Cyflwyniad

Pwrpas a chwmpas y canllawiau

Cyhoeddir y canllawiau hyn yn unol â chymal 103(1) y Ddeddf Fenter 2002 (y Ddeddf) i ddarparu arweiniad i gwmnïau a'u hymgynghorwyr ynghylch y meini prawf a gymhwysir gan y Swyddfa Masnachu Teg (OFT) wrth ystyried a ddylid cyfeirio cyfuniad i'r Comisiwn Cystadlu (CC) i'w archwilio ymhellach. Yn amodol ar rai eithriadau cyfyng, mae'n rhwymedigaeth ar y OFT i gyfeirio cyfuniad i'r CC i'w archwilio os cred:

- i sefyllfa cyfuniad berthnasol ddod i fodolaeth, a
- bod y cyfuniad wedi achosi, neu y gellir disgwyl y bydd yn achosi, lleihad sylweddol mewn cystadlu o fewn unrhyw farchnad ar gyfer nwyddau neu wasanaethau o fewn y Deyrnas Unedig.

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio beth a olygir gan 'sefyllfa cyfuniad berthnasol' a dehongliad yr OFT o'r prawf 'lleihad sylweddol mewn cystadlu'. Mae'r canllawiau'n disgrifio'r amgylchiadau lle y mae gan yr OFT awdurdodaeth dros gyfuniadau sy'n effeithio ar gystadlu yn y Deyrnas Unedig (Rhan 2), yn esbonio syniad lleihad sylweddol mewn cystadlu (Rhan 3), ac yn esbonio'r egwyddorion ar gyfer asesu effeithiau i gystadlu o gyfuniadau llorweddol (Rhan 4), fertigol (Rhan 5), a chydgasglol (Rhan 6). At hyn, mae'r canllawiau hyn yn mynd i'r afael â'r amgylchiadau lle y gallai'r OFT ymarfer ei disgresiwn i beidio â chyfeirio cyfuniad i'r CC i'w archwilio (Rhan 7), yn disgrifio'r egwyddorion y tu ôl i ystyriaeth yr OFT o ymgymeriadau a gynigir yn lle cyfeirio (Rhan 8), yn esbonio sut y cymhwysir darpariaethau'r Ddeddf yn ymwneud â chyfuniadau at ddiwydiannau a reoleiddir (Rhan 9) a gweithredu'r darpariaethau diddordeb cyhoeddus a sefyllfaoedd cyfuniadau arbennig (Rhan 10), yn esbonio rhyngweithiad y Ddeddf â Rheoliadau Cyfuniadau'r Gymuned Ewropeaidd (Rhan 11), ac yn rhoi manylion cysylltu ar gyfer derbyn rhagor o wybodaeth (Rhan 12).

Gwybodaeth ar agweddau trefniadol y sustem reoli cyfuniadau'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys arweiniad ar gynnwys cyflwyniadau i'r OFT, a gaiff ei gynnwys yn *Mergers – OFT Procedural Guidelines*. Cyhoeddir y canllawiau anstatudol hyn cyn i ddarpariaethau cyfuniad y Ddeddf gael eu gweithredu.

Mae'r canllawiau'n cynrychioli polisïau ac ymarferion yr OFT ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae meddylfryd cyfreithiol ac economaidd yn esblygu, felly gellir diwygio'r canllawiau hyn o bryd i'w gilydd i adlewyrchu'r cyfryw ddatblygiadau. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch dadansoddi cyfuniadau'r OFT yn yr arweiniadau i gyfuniadau ar wefan yr OFT (y gellir dod o hyd i'r cyfeiriad yn Rhan 12 y canllawiau hyn).

Strwythurau Sefydliadol

Mae'r Ddeddf yn pennu swyddogaethau penodol i'r OFT, y CC a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant (yr Ysgrifennydd Gwladol). Ceir crynodeb o'r ffordd y mae'r swyddogaethau hyn yn cydblethu yn y paragraffau canlynol.

Corfforaeth gorfforedig newydd yw'r **OFT** a sefydlwyd gan y Ddeddf i gyflawni rhai swyddogaethau ar ran y Goron. O dan y Ddeddf, y mae gan yr OFT swyddogaeth i gaffael ac adolygu gwybodaeth yn ymwneud â sefydliadau cyfuniadau, a rhwymedigaeth i gyfeirio unrhyw gyfuniadau perthnasol y mae'n credu y gellid disgwyl y bydd yn arwain at leihad sylweddol mewn cystadlu i'r CC. Y mae gan yr OFT hefyd swyddogaeth i gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch cyfuniadau a all ddod o fewn cwmpas budd cyhoeddus neu ddarpariaethau sefyllfa cyfuniadau arbennig y Ddeddf. Os bu cyfeiriad, y mae'n rhwymedigaeth ar yr OFT i ddarparu unrhyw wybodaeth berthnasol i'r CC. Os gofynnir ei wneud, caiff yr OFT hefyd gynghori'r partïon i gytundeb lle y mae'r cyfyngiadau oddi mewn iddo'n ategol i gyfuniad ac felly wedi'u heithrio rhag y gwaharddiadau yn y Ddeddf Cystadlu 1998[1]. Mewn achosion lle yr ystyrir cyfuniad, gall yr OFT ddarparu cyngor anffurfiol ar arweiniad cyfrinachol i'r partïon sy'n ymwneud ag ef. Mewn cyfuniadau arfaethedig neu wedi'u gorffen, gall yr OFT, naill ai ar ei ran ei hun, neu, mewn achosion eithriadol lle y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn amdano, negodi ymgymeriadau yn lle cyfeiriad i'r CC. Mae'r OFT yn cyflogi staff gweinyddol, cyfreithiol, economeg a chyfrifeg i gyflawni'r swyddogaethau a rhwymedigaethau hyn. Cydlynir gweithgareddau'r OFT mewn perthynas â chyfuniadau gan ei Changen Gyfuniadau, rhan o'r Isadran Gorfodi Cystadleuaeth.

Mae'r **CC** yn gorff annibynnol sy'n cynnwys aelodau gydag arbenigedd mewn materion cystadlu. Y CC sy'n archwilio cyfuniadau a gyfeirir ato gan yr OFT (ac yn achlysurol gan yr Ysgrifennydd Gwladol) i benderfynu a oes sefyllfa gyfuniadau sy'n gymwys i'w archwilio ac, os felly, a yw'r cyfuniad hwnnw'n arwain at, neu y gellir disgwyl iddo arwain at, leihad sylweddol mewn cystadlu. Mae'r CC yn penderfynu canlyniad yr achosion cyfuniadau a gyfeirir ato gan yr OFT, ac adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r cyfuniadau hynny a gyfeirir ato ganddi. Nid oes ganddo awdurdod i archwilio unrhyw gyfuniad oni bai i'r OFT neu'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn iddo wneud felly o dan y pwerau statudol perthnasol.

Yr **Ysgrifennydd Gwladol** yw pennaeth yr Adran Fasnachu a Diwydiant (DTI) ac mae wedi cadw swyddogaeth mewn penderfyniadau cyfuniadau ar gyfer rhai trosglwyddiadau papur newyddion, ac mewn rhai achosion budd cyhoeddus. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn gallu addasu rhai darpariaethau yn y Ddeddf, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â

throthwyon awdurdodaethol a lefel ffioedd cyfuniadau. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r gallu i'r Ysgrifennydd Gwladol ymyrryd mewn cyfuniadau nad ydynt yn gymwys o dan y profion awdurdodaethol arferol, lle mae'r fenter darged â mynediad i wybodaeth gyfrinachol yn ymwneud â diogelwch gwladol. Gelwir y rhain yn Sefyllfaoedd Cyfuniadau Arbennig .

Cysylltiad â'r OFT

Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys cyfuniadau arfaethedig a gorffenedig. Mae'r rhan fwyaf o achosion a ystyrir gan yr OFT yn rhai arfaethedig o hyd. Er nad yw'n ofynnol o dan gyfraith rheoli cyfuniadau hysbysu am gyfuniad cymwys, yn gyffredinol y mae hysbysu'r OFT am gyfuniad arfaethedig o flaen llaw er budd y cwmni ei hun, fel y gellir cymryd unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â chyfeiriad i'r CC cyn cwblhau'r cytundeb. Mae risg bob tro y bydd y bydd yn rhaid i'r cyfuniad gael ei wahanu os gwneir y cyfeiriad ar ôl cwblhau'r cytundeb pe byddai'r CC yn dod i'r casgliad fod gweithrediad y cyfuniad yn arwain at leihad sylweddol mewn cystadlu.

Darperir manylion cysylltu ar gyfer Cangen Gyfuniadau'r OFT yn Rhan 12 y canllawiau. Cynghorir cwmnïau a'u hymgynghorwyr i gysylltu â'r OFT yn gynnar yn ystod y proses cyfuno i drafod cymhwyso'r Ddeddf at y sefyllfa gyfuniad.

[1] Gweler 'Office of Fair Trading, *Exclusion for Mergers and Ancillary Restrictions*, (2000) London'